Gwasanaethu'r gymuned | Pobl | Ymdrechu dros ragoriaeth | Amrywiaeth a chynhwysiant

# UWCH SWYDDOG CYDYMFFURFIAETH

**Adran Diogelwch Tân Busnes**
**Parhaol, 37 awr yr wythnos**
**GTAGC Gradd 07 £33,024 - £35,745 y flwyddyn**

Rydym yn awyddus i benodi Uwch Swyddog Cydymffurfiaeth i ddarparu a gorfodi deddfwriaeth diogelwch tân mewn busnesau ac eiddo annomestig. Mae hon yn rôl newydd a bydd disgwyl i'r person penodedig ddarparu cymorth technegol manwl yn ymwneud a materion diogelwch tan, archwiliadau diogelwch tân ac archwiliadau diogelwch yn yr holl eiddo reoledig, yn cynnwys eiddo cymhleth a risg uchel.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gyfathrebwr effeithiol, gyda'r gallu i weithio ar liwt ei hun i ymchwilio a dadansoddi problemau a dyfeisio datrysiadau priodol gan ddefnyddio nifer o adnoddau. Gyda dull rhagweithiol a hunan-gymhellol, mae angen sgiliau rhyngbersonol da er mwyn datblygu perthynas waith effeithiol gydag unigolion a grwpiau mewnol ac allanol.

Bydd angen i ymgeiswyr ddangos (gyda thystiolaeth) yn erbyn y sgiliau, fel yr amlinellir yn y disgrifiad swydd a manylion y person, gan gynnwys y gofynion allweddol canlynol:

- Meddu ar dystysgrif IQ Lefel 4 neu gywerth mewn Diogelwch Tân a meddu ar gymhwysedd yn y rôl o Gynghorydd Diogelwch Tân neu gywerth
- Meddu ar, neu gyflawni yn y swydd, Diploma IQ Lefel 4 mewn Diogelwch Tân, neu gywerth
- Meddu ar, neu gyflawni yn y swydd, gofrestriad gyda/ neu achrediad gan gorff proffesiynol (fel IFE Graddedig ac Archwiliwr Cofrestredig) er mwyn gallu arddangos agwedd ac ymroddiad proffesiynol i gynnal cymhwysedd
- Meddu ar, neu gyflawni yn y swydd, (o leiaf) gofrestriad fel technegydd Peirianyddol gyda'r Cyngor Peirianneg drwy gorff proffesiynol (achrediad trydydd parti)
- Gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o'r Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 a risgiau a chydymffurfiaeth rheoliadau tân drwy archwiliad ac awdit
- Gwybodaeth arwyddocaol o brosesau ac arweiniad sy'n berthnasol i asesiad risg tân rheoleiddiol a gwerthusiad o beryglon a risgiau tân
- Mae'r gallu i gynnal sgwrs syml yn y Gymraeg at Lefel 2 yn hanfodol ar gyfer y swydd hon (o fewn y cyfnod prawf 12 mis os nad yw eisoes wedi ei brofi yn ystod y broses ymgeisio – bydd cefnogaeth ar gael fel bo angen)
- Trwydded yrru lawn y Deyrnas Unedig .
  Er y bydd y rôl yn cwmpasu ardal Gogledd Cymru, gall y swyddfa ddynodedig fod yn unrhyw un o'r lleoliadau Diogelwch Tan bresennol a bydd hyn yn cael ei thrafod gyda'r ymgeisydd llwyddiannus, gyda'r gallu i weithio'n ystwyth hefyd ar gael.

I ymgeisio, cwblhewch a chyflwynwch eich pecyn cais drwy ebost i:
Recruitment@northwalesfire.gov.wales

**Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais ydi hanner dydd, 15.07.2024**

Byddwn yn glynu wrth y dyddiad cau yn llym ac ni fydd eithriadau.

Llinell Gymorth Gweithwyr Cyfrinachol

Rydym yn gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan bob rhan o'r gymuned. Rydym wedi ymrwymo i roi cyfle cyfartal i'r holl staff ac mae ceisiadau yn cael eu hannog gan unigolion waeth beth fo'u sefyllfa o ran oedran, anabledd, rhywedd, ailbennu rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred a phriodas a phartneriaethau sifil.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb yn gydradd i'r naill iaith ac yn ymateb yn eich iaith ddewisol heb oedi. Ni fydd cais a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.